Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
CHWEFROR 2009

DYDDIAD	Nos Fercher 18fed Chwefror, 2009
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Canolfan Cae'r Gors, Rhosgadfan
AELODAU'N BRESENNOL	Meurig Williams (Cad), Jane Eryl Jones, Gwilym L.Williams, Gwilym V.Thomas, Elin Evans, Huw Williams, Neal Williams, Nerys Evans
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**
   Jason Hunt, Tom Ellis

3. **Datgan Buddiant**
   Nawdd: BHF a Clwb Rygbi: Elin Evans; Cae Chwarae: Huw Williams, Neal Williams, Bethan Williams

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd fod cofnodion Ionawr yn gywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a) GVT – defaid yn crwydro hyd pentref Rhosgadfan – angen gwybod pwy y dylem gysylltu â nhw i wneud cwyn. Clerc wedi cysylltu efo'r RSPCA a DEFRA. Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i wneud cwyn, o ystyried fod y ffensio a'r gridiau wedi costio cymaint.
   b) EE yn awyddus i gael gwybod beth ydy'r diweddara ynglyn â monitro traffig yn Saron – clerc i holi Aeron
   c) GVT – ceir yn parcio ar ochr y ffordd ym Mhenffordd, Rhosgadfan. Gofyn os oes modd cael llinnellau melyn yma. Clerc i sgwennu i'r perchnogion yn gyntaf, cyn mynd at yr heddlu.
   d) ElJ – polyn BT wedi'i osod ynghanol y palmant ger Bryn Meillion. Clerc wedi cysylltu â BT, dal i ddisgwyl ymateb pellach.
   e) GLW – Pont Caer Moel – angen gofyn wrth y cwmni rheilffordd dorri'r coed, hefyd ar bont Wernlas Ddu. Rhywfaint o waith wedi'i wneud yma.
   f) GLW – gwagio gulleys ar y ffordd lawr o Dolellog i Dinas. Clerc i gysylltu â'r cyngor.
   g) TE – giât y tu cefn i Garej Dolydd wedi malu. Clerc eisoes wedi cysylltu â'r cyngor.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	**7473.18**
Cyfri Siec:	**6255.89**
CYFANSWM	
	13,729.07

Cadarnhawyd y gyllideb am y flwyddyn.

9. Taliadau:

Cyflog/costau clerc – mis Chwefror	395.15
Cyllid y Wlad	97.35
Canolfan Llanwnda	6.00
Hacker Young	184.00
Peti cash	200.00
Cwrs hyfforddi cynghorwyr	25.00

Ceisiadau am nawdd:

Mynwent Hermon	250.00
Cae Chwarae Rhosgadfan	300.00
Clwb Rygbi Caernarfon	200.00
Victim Support	30.00
Cyfeillion y Samariaid	100.00
Macmillan	100.00
Lleu	150.00
Age Concern	50.00
Bara Caws	200.00
Dawns i Bawb	100.00

Cafwyd nifer o geisiadau eraill, ond gan nad oedd mantolen wedi'i chyflwyno, ni ellid ystyried y ceisiadau.

10 **Materion Cynllunio**

Dim ceisiadau i law.

11 **Gohebiaeth:**

a. Un Llais Cymru – gwahoddiad i gynghorwyr ar gwrs hyfforddi – 6-9pm dydd Mercher, 4ydd Mawrth yn yr Institute, Caernarfon. Cytunodd NE fynychu'r cwrs.
b. Un Llais Cymru - gwahoddiad i Arddwest Palas Buckingham – dim diddordeb gan yr aelodau.
c. Cyngor Gwynedd – gwarchod trefniadau i ddarparu gwasanaeth. Cadarnhawyd fod trefn gyfredol y cyngor cymuned yn addas. Bydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn cymryd drosodd drefniadau'r fynwent pe bai'r clerc yn methu.
d. SLCC – gwahoddiad i gynhadledd undydd yn Llandudno. Clerc yn awyddus i fynychu, ac fe gytunodd yr aelodau y dylem gael cynrychiolydd.
e. Cynulliad – Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol
f. Digwyddiad Gefeillio
g. Cynulliad – swm briodol o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol
h. Cynulliad – benthyca gan Gynghorau Cymuned a Thref
i. Sefydliad Aren Cymru – angen pobol i gymryd rhan mewn taith gerdded
j. Cylchgronnau

12 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) Mater brys: Angen gofyn am focsys grit ger Mynwent Hermon tuag at Hen Gapel ac un ar lôn fynwent Rhosgadfan.
b) Nododd GLW fod y lori grit yn troi yn ei hôl ger Bryn Peris yn hytrach na chario 'mlaen lawr i Brynrodyn. Angen gofyn wrth y cyngor edrych ar y cynllun gritio yn ei gyfanrwydd. Clerc i gysylltu â Meirion Williams.
c) GLW – poeni am syrjeri Rhostryfan. Clerc wedi cael clywed fod y syrjeri yn mynd i agor yn fuan. Angen checio. Pwysleisio ar bawb fod angen defnyddio'r syrjeri mor aml a phosib wedi iddi ail-agor.
d) JEJ – postiau concrit heb eu trwsio. Clerc i fynd ar ôl y cyngor eto.
e) EE - Rumble strips ar y ffordd yn Ffrwd Cae Du wrth ddod lawr o Rhostryfan
f) NE – cwynion fod y dynion sy'n gweithio ar y loriau ail-gylchu yn flêr iawn, os ydynt yn colli sbwriel ar lawr, nid ydynt yn eu codi, ac mae papurau ac ati yn gwasgaru i bobman.
g) MW – angen atgoffa'r cyngor unwaith eto am y sbwriel sydd ar ochr y ffordd rhwng Ffrwd Cae Du a Rhosgadfan
h) Biniau brown – angen checio beth ydy'r diweddara
i) NW – cyflwr gwyneb y ffordd yn Penffridd
j) NW – polyn BT wedi'i symud o Trem Don ac wedi gadael twll ar ei ôl – peryglus.
k) EE – cyflwr y ffordd ger Felinwnda ac i lawr am Rhosgawen

Bydd y cyfarfod nesaf yn digwydd ar 11eg o Fawrth yn Rhostryfan